# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

## CYMRAEG: IAITH GYNTAF UG/UWCH

## HAF 2014

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2014 TAG PWNC. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.


| | Tudalen |
|---|---|
| CY3 | 1 |
| CY5 | 14 |
| CY6 | 23 |


© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF**

**CYNLLUN MARCIO CY3**

**MAI 2014**

**Adran A**
**Defnyddio Iaith a Barddoniaeth**

Cyfanswm o **40** marc

*(a)* Rhoddir 2 farc am bob brawddeg sydd yn dangos ystyr a defnydd yn eglur a chywirdeb ieithyddol. Rhaid dangos ystyr yn eglur cyn ennill marciau.

1 neu 2 wall – colli ½ marc
Mwy na 2 wall – colli 1 marc
Ystyrir gwallau atalnodi, e.e. acen grom neu atalnod llawn, yn wallau. Hefyd pan gyflwynir dwy frawddeg yn lle un, ystyrir hyn yn un gwall.

**sonnir**: rhaid cyfleu'r ffurf amhersonol yn yr amser presennol/dyfodol yn gywir.

*Sonnir* am y cyngerdd gan aelodau'r pwyllgor cyn bo hir.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

*Sonnir* am y cyngerdd gan aelodau'r bwyllgor cyn bo hir.
Dyfernir 1½ marc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

*Sonnir* ei bod yn ffilm dda.
Dim marciau gan na ddangosir ystyr na defnydd yn llawn. Gellir defnyddio '*soniwyd*' yn y frawddeg hon.

**nad yw:** ffurf negyddol y rhagenw perthynol. Gellir ei ddefnyddio hefyd fel 'negydd' ar ddechrau cymal enwol negyddol.

Gwn *nad yw* ef wedi adolygu ar gyfer y prawf heddiw.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

**wrthynt hwy:** angen y defnydd cywir o arddodiad.

Es i ddweud *wrthynt hwy* am hanes y llofruddiaeth.
Oddi *wrthynt hwy* y derbyniais y llythyr.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Cefais lythyr *wrthynt hwy* yn yr ysbyty.
Dim marciau am na chynhwysir yr 'oddi' o flaen 'wrthynt' ac felly nid yw'r defnydd yn llawn.

**ysgrifennaf:** angen cyfleu'r amser presennol/dyfodol yn y frawddeg neu'r presennol arferiadol e.e.

Erbyn hyn *ysgrifennaf* i bob bore i gwblhau'r nofel.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Erbyn hyn *ysgrifennaf* i pob bore i gwblhau'r nofel.
Dyfernir 1½ marc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

**y gwyddai:** gellir ei ddefnyddio ar ddechrau cymal pan ddilynir y rhagenw perthynol gan arddodiad personol.
Dyma'r dyn *y gwyddai* pawb amdano.

Gellir ei ddefnyddio ar ddechrau cymal enwol:
Roeddwn yn sicr *y gwyddai* John fod ganddo siawns dda o ennill y gystadleuaeth.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr atebion hyn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

**(5 x 2 = 10)**

*(b)* *Rhoddir* 1 marc am bob gwall a gywirwyd ac 1 marc am bob esboniad cywir. Rhaid i'r cywiriad fod yn gywir cyn ennill marc. Disgwylir bod y disgyblion yn defnyddio termau cywir e.e. rhagenw, arddodiad, rhagenw perthynol, cysylltair, cymal.

(i) **dogfen** > **ddogfen**: enw yn *treiglo'n feddal yn y traethiad ar ôl 'yn'.*

**ohono** > **ohoni**: gan fod dogfen yn enw benywaidd mae angen defnyddio *ffurf fenywaidd yr arddodiad 'o'.*
**½** marc yn unig am nodi yr 'arddodiad ohoni'.
½ marc yn unig am nodi 'ffurf benywaidd'.

(ii) **a** > **y**: defnyddir y *rhagenw perthynol* 'y' mewn cymal perthynol pan ddilynir yr 'y' gan *arddodiad personol*, neu, ni ellir defnyddio'r *rhagenw perthynol* 'a' ond pan yw'n oddrych neu'n wrthrych y ferf yn yr isgymal.
½ marc yn unig am nodi 'rhagenw perthynol' yn unig.

**pob dydd** > **bob dydd**: dyma gymal yn ymwneud ag amser. Mae "pob dydd" yn ymadrodd adferfol amser ac mae angen treiglad meddal. Gellir nodi cyflwr adferfol / adferf yn dynodi amser.
Cyfeirio at amser – ½ marc yn unig.

(iii) **i'w > ar:** defnydd anghywir o *arddodiad,* angen defnyddio'r arddodiad *ar* ar ôl 'dibynnol' .

**tra y bydd > tra bydd:** dilynir *cysylltair* 'tra' gan ferf ond heb dreiglad a hynny'n uniongyrchol heb y/yr yn eu gwahanu. Rhaid cael y term 'cysylltair' neu 'berf' yn yr ateb i gael y marc.

(iv) **ni > na:** Dylid defnyddio 'na' ar ddechrau *cymal (enwo)l negyddol*.

**os > a:** *cwestiwn anuniongyrchol* sydd yma felly rhaid defnyddio'r *geiryn gofynnol* 'a'. Nid oes amod yn y frawddeg ac felly ni ddylid defnyddio 'os'.

(v) **ystyrir > ystyria'r:** angen *berf bersonol yma sef trydydd person unigol amser presennol* y berfenw 'ystyried' ac nid *berf amhersono*l gan fod y goddrych yn cael ei enwi. Cyfeiriad at ferf bersonol yn unig – ½ marc. Os nodir 'ystyria y' neu 'ystyra' ½ marc yn unig.

**pwysigrwydd > bwysigrwydd**: *gwrthrych y ferf* 'ystyria' yn *treiglo'n feddal*.

**(10 x 2 =20)**

*(c)* Bydd **10** gwall yn y paragraff a rhoddir 1 marc am gywiro pob gwall. Os bydd gwall sillafu neu atalnodi yn y geiriau a ddefnyddir wrth gywiro yna collir ½ marc am bob gwall e.e.

| | |
|---|---|
| **eu h**wynebau | 1 marc |
| eu wynebau | ½ marc |
| **y g**allwch | 1 marc |
| y allwch | ½ marc |
| ag ofn | 1 marc |
| â ofn | ½ marc |

Bydd angen i'r ymgeiswyr ailysgrifennu'r paragraff a **thanlinellu'r** cywiriadau.

**(10 x 1=10)**

Dyma enghraifft sut y gellir cywiro'r paragraff:

Archebwch **w**ers yn awr! Mae'n hawdd iawn i bobl sydd **ag** ofn dŵr / sy'n ofni dŵr / yn ofnus o ddŵr neu sy'n casáu gwlychu **eu h**wynebau beidio â dysgu nofio. Cofiwch **nad yw** un ymhob pum oedo**lyn** / pump o oedolion yn y wlad hon yn gallu nofio. Nid yw hi **byth** yn rhy hwyr i ddysgu! Felly beth am **dreulio amser** yn **ein** pyllau nofio sirol ni / mewn pyllau nofio sirol gyda hyfforddwyr cymwys? Drwy ddysgu nofio fe **allwch** chi ddod i fwynhau / fe ddewch i fwynhau / fe gewch fwynhau / y gallwch chi fwynhau yn y dŵr gyda theulu a ffrindiau. Dyma ddiddordeb hamdden **y g**allwch ei ystyried / y gellir ei ystyried o ddifrif!

**Cyfanswm o 80 marc**

**Cynllun Marcio Mai 2014**
**Adran B**

**Meini Prawf Cwestiwn penodol**

**Wrth ateb y naill gwestiwn a'r llall disgwylir bod yr ymgeiswyr yn:**

- cyfeirio'n benodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau perthnasol
- saernïo traethawd ac yn dewis a dethol y perthnasol
- ymdrin â chrefft/arddull y beirdd, ei saernïo o fewn y drafodaeth gan gyfeirio at y gynghanedd lle bo angen.

**Dyfarnu marciau:**

- rhaid ystyried ansawdd y drafodaeth wrth ddyfarnu marciau
- os na roddir sylw i arddull o gwbl dylid gostwng y marciau un radd
- pe bai ymgeisydd yn trafod un gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 10
- pe bai ymgeisydd yn trafod dwy gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 20
- rhaid i farc iaith AA3 fod o fewn gradd i farc y cynnwys
- dylid ystyried 3 phwynt cyntaf meini prawf AA3 yn ogystal â'r ddau sy'n ymwneud â chywirdeb iaith.

**Cwestiwn (a)**

*Mae **Iwan Llwyd** a **Twm Morys** yn perthyn i'r un cyfnod. Wrth **gymharu'r** ddau fardd gan ystyried y cerddi a astudiwyd gennych, trafodwch a ydynt mewn gwrthgyferbyniad llwyr o ran **syniadaeth, themâu ac arddull**.*

Gellir cyfeirio at y canlynol:

Y nod yw dewis a dethol yr elfennau perthnasol i ateb gofynion y cwestiwn. Bydd yr **elfen gymharol** yn rhan hanfodol wrth drafod a ydynt mewn gwrthgyferbyniad llwyr o ran **syniadaeth, themâu ac arddull.**

Bydd modd cyfeirio at y ffaith bod y ddau fardd yn perthyn i'r un cyfnod. Mae'r ddau wedi teithio llawer ac yn naturiol mae dylanwad y teithio hynny ar eu canu. Mae gan y ddau eu lleisiau eu hunain; lleisiau gwreiddiol a gwahanol. Iwan Llwyd ar y naill law yn fardd cosmopolitan byd eang a Twm Morys ar y llaw arall wedi defnyddio hen fesurau'r canu caeth.

**Pwysigrwydd pobl:** Pobl yn bwysig i'r ddau fardd. Hoffter Iwan Llwyd o **gyfosod pobl** o wahanol gyfnodau. Sylweddola nad yw dyn, yn ei anian, yn newid. Yn y gerdd '*Aneirin*', Aneirin modern yw'r newyddiadurwr sy'n neidio i ganol y frwydr ac yn cynnig '*fri a oroesai frwydr'* ac yn rhoi '*cip ar dragwyddoldeb'*. Defnyddia ffigwr o'r gorffennol i ddwysáu ei neges sef mai'r un yw ysfa dyn i ryfela, yr un yw ysfa gohebydd rhyfel i gofnodi rhyfel a'r un yw ysfa'r milwr i gael ei anfarwoli.

Dathlu bywyd unigolyn gan **gyflawni rôl draddodiadol y bardd** yng Nghymru a wna Twm Morys yn ei gerdd farwnad i 'R.S.' Pobl fel R.S. sy'n rhoi ystyr i ddiwylliant a chymdeithas a hanes Cymru yn ôl Twm Morys. Teimla golled ar ôl ei gyfaill a oedd yn Gymro i'r carn ac yn caru pob agwedd ar yr iaith Gymraeg, '*ei hofarôls, a'i hafiaith', 'yr ifanc, a'r rafin'.* Argraff arwynebol, anghywir a gafodd pobl ddieithr o R.S. gan fethu ag edmygu ei rinweddau.

**Syniadaeth: beirniadol** yw agwedd Iwan Llwyd yn ei gerddi wrth ystyried y **thema rhyfel** ac ystyria ryfel fel rhywbeth ofer ac anghyfiawn. Fel y gohebydd, gwawdio a wna agwedd 'arwrol' rhyfel e.e. yr Americanwyr yn '*Sgrifen yn y tywod'* a'r gohebydd a'r milwyr yn '*Aneirin*'. Ceir beirniadaeth o ysfa a rhagrith America i sicrhau cyflenwad olew ar draul bywydau pobl Iran yn gryf yn y gân brotest '*Sgrifen yn y tywod'*. Teimlwn y coegni wrth iddo esbonio beth yw'r cyfiawnhad honedig dros y rhyfel a sylweddolwn wir drachwant y byd Gorllewinol.Yr un mor gryf yw ei safbwynt wrth gydnabod yn y gerdd '*Aneirin*' na lwyddwyd i ennyn atgasedd dyn at ryfel er gwaetha'r datblygiad mewn technoleg a chyfryngau'r gohebydd. Parhau mae ysfa dyn i ladd cyd-ddyn.

**Cadarnhaol** fodd bynnag yw agwedd Twm Morys yn ei gerdd '*R.S*.' a gwelwn **obaith** y bydd y **gwerthoedd** hynny y bu R.S. Thomas yn brwydro drostynt yn parhau a'r cof amdano'n fyw. Yn yr un modd yn y gerdd '*Darllen y Map yn Iawn',* **dathlu map o Gymru** a wna ac mae arwyddocâd ei neges yn obeithiol yma eto gyda'r haul yn ddelwedd llawn gobaith yn disgleirio drwy'r map. Er gwaetha'r elfen gref o feirniadaeth gan Iwan Llwyd gellir cyfeirio at y ffaith mai **cynnig anfarwoldeb** i'r milwyr a wna'r **newyddiadurwr rhyfel** a **gobaith** iddynt fyw wedi'r brwydro a chael eu **cofio** fel arwyr.

**Hanes yn ysbrydoliaeth i'r ddau fardd:** yn ei gerdd '*Darllen y Map yn Iawn'* mae **lleoedd arwyddocaol yng Nghymru** yn ysbrydoli'r bardd i gofio a dangos **dyfnder a chryfder ein hanes.** Gall lleoedd penodol ein harwain i'n hadnabod ein hunain yn well ac adnabod ein cynhysgaeth. Yn yr un modd caiff Iwan Llwyd ei ddylanwadu gan **hanesion rhyfeloedd rhyngwladol ei oes**. Caiff ei ysbrydoli wrth deithio heibio Llyn Clywedog**,** gaeaf 1991. Yma mae'n dechrau ei fyfyrdod ac yn cyferbynnu'n drawiadol rhwng tirlun rhewllyd Cymru a gwres tanbaid y Gwlff. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng y tymhorau yn pwysleisio'r pellter maith sydd rhwng y ddwy wlad. Caiff dwy olygfa a dau leoliad eu cyfosod. O dan yr haenen yma o brydferthwch gwyn y gaeaf ger Llyn Clywedog mae gwir arswyd yn ymguddio, wrth i famau a gweddwon fyw'r hunllef o wynebu colli mab. Mae'r cyfeiriad at y '*lon fel craith ddu yn yr eira'* yn rhagfynegi'r dolur sydd i ddod oherwydd erchyllterau'r rhyfel. Wedi ei ysbrydoli felly gan ryfeloedd rhyngwladol ei oes y mae Iwan Llwyd, e.e. ar y 'Satellite' ond eto ni chais ateb i ryfel yn ei gerdd '*Sgrifen yn y Tywod'*. Wrth edrych ar ryfel y Gwlff daw Iwan Llwyd i sylweddoli mai'r un yw rhyfel ym mha ganrif bynnag y bo. Yr un yw'r Americanwyr gwyn sy'n arwain y gad yn erbyn trigolion y Gwlff ddiwedd yr ugeinfed ganrif â'r Americanwyr a fu'n ymladd yn erbyn y brodorion yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr un yw'r anghyfiawnder.

Er bod Iwan Llwyd yn defnyddio hanesion rhyfeloedd ei oes, **hanes gwlad** sy'n bwysig i Twm Morys. Yn aml mae **hanes lleol a hanes teulu** yr un mor werthfawr â hanes cenedlaethol. Trwy **gofio hanes** a dod i adnabod ein gwreiddiau a'n hetifeddiaeth fe allwn ddeall y presennol a gobeithio am ddyfodol disglair llawn gobaith. Unwaith eto mae arwyddocâd neges Twm Morys yn llawn gobaith ac yn gwrthddweud y syniad mai pobol wasgaredig yw'r Cymry, ac mai dim ond i rannau anghysbell o'n gwlad y mae'r iaith yn perthyn. Gellir honni bod **'cof cenedl'** yn arwyddocaol i'r ddau fardd. Heb wybod dim o'n hanes, ni allwn symud ymlaen yn hyderus fel cenedl yn ôl Twm Morys.

**Ym marddoniaeth Twm Morys efallai y byddant yn cyfeirio at:**

**Darllen y Map yn Iawn**

- cyfarch y darllenydd er mwyn ein harwain i'n hadnabod ni ein hunain ac adnabod ein cynhysgaeth, gwybod beth sydd wedi ein gwneud yr hyn ydym, adnabod ein gwreiddiau, ein hetifeddiaeth
- astudio map o Gymru yn brofiad diddorol, enwau yn dweud llawer, rhywbeth am siâp y tirwedd, neu ddaearyddiaeth yr ardal, neu ryw chwedl neu hanes am y lle
- dathlu'r map a wna'r gerdd hon gan awgrymu i'r darllenydd beth yw'r elfennau pwysig mewn bywyd, y mannau lle cafodd y bardd brofiadau arbennig a'i wreiddiau, y seintiau a'r chwedlau yn bwysig, diwydiannau ac arwyr
- mae'r holl bobl a'r lleoedd hyn yn rhan o'n map ni fel Cymry, er efallai fod llawer ohonyn nhw wedi newid a diflannu erbyn hyn
- Twm Morys yn cyfleu bod map i'w gael yn y galon ac yn y meddwl
- rhigwm: mesur syml, cyfres o gwpledi odledig ac mae'r odlau yn rhwydd a naturiol iawn. Mae'r symlrwydd yn addas i naws sgyrsiol y gerdd
- tafodiaith ogleddol, rhythm yr iaith lafar i'w glywed yn glir
- cyfres o orchmynion penodol, rhestru, cyfeiriadaeth, ailadrodd
- arwyddocâd ei neges yn llawn gobaith, mae am i bawb adnabod pob darn o wellt ym mhob cae yn ei gynefin er mwyn adnabod eu hunain a'u gwreiddiau yn well. Trwy gofio hanes gwlad fe allwn ddeall y presennol a gobeithio am ddyfodol disglair llawn gobaith
- haul ar y diwedd yn ddelwedd llawn gobaith yn disgleirio drwy'r map, y pelydrau golau hyn sy'n cynrychioli Cymru. Mae yma obaith i'r dyfodol.

**R.S.**

- cerdd farwnad i'r bardd o Gymro a ysgrifennai yn yr iaith Saesneg
- cyfleu diddordeb y bardd mewn byd natur ac yn arbennig mewn gwylio adar
- cyfeirir ato fel brenin ar ei ardal gan iddo fod yn rheithor eglwysi'r Rhiw ac Aberdaron am gyfnod maith. Hefyd fel Cristion yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod Crist wedi marw er ei fwyn ef a phechaduriaid eraill
- darlun gwahanol a gafodd '*yr hac boliog – o Lundain'* ohono. Gwelodd ef fel dyn sych prin ei groeso
- efallai nad oedd ganddo'r un croeso i bawb ond yn hoff iawn o'i adar, ei wraig ac wrth gwrs yr iaith Gymraeg
- symud i Bentrefelin ger Cricieth ar ôl ymddeol, bu farw yn ei gartref a chynhaliwyd cyfarfod coffa iddo yn eglwys y plwyf Pentrefelin
- pwysleisir y ffaith bod Cymru gyfan wedi teimlo'i golli
- mesur y cywydd a dau englyn (awdl), meistr ar greu darlun cyfan mewn ychydig o linellau, a'r darlun hwnnw yn llawn manylder diriaethol
- defnyddio byd natur i gyfleu hiraeth a thristwch e.e. y gwynt yn rhuo, sŵn y derw a'r don yn Aberdaron, cydgysylltu rhwng yr englyn a'r cywydd drwy gyfeirio at '*oer ei groeso*', ailadrodd y ferf '*carai*', defnyddio trosiad '*gwenoliaid yr ha'*, defnyddio'r adar fel delwedd, e.e. yr adar yn parhau yn yr ardal fel y bydd efallai'r gwerthoedd hynny y bu R.S. Thomas yn brwydro drostynt; tra bydd yr adar yno, bydd y cof amdano'n fyw.

**Ym marddoniaeth Iwan Llwyd efallai y byddant yn cyfeirio at :**

**Aneirin**

- gweledigaeth Iwan Llwyd fel bardd ac elfen gref o feirniadaeth yma na lwyddodd y Cynfeirdd na'r newyddiadurwyr cyfoes i ennyn atgasedd dyn at ryfel
- mynd yn ôl mewn hanes wrth ddewis Aneirin fel teitl ond yn trafod o safbwynt heddiw
- trafod rôl y gohebydd rhyfel o gyfnod Aneirin i gyfnod rhyfel Fietnam
- Aneirin modern yw'r newyddiadurwr sy'n neidio i ganol y frwydr ac yn tynnu llun mewn lliw, ei gyfosod ag Aneirin y bardd yn y 6ed ganrif;
- yr un yw ysfa dyn i ryfela, yr un yw ysfa gohebydd rhyfel i gofnodi rhyfel a'r un yw ysfa'r milwr i gael ei anfarwoli
- Aneirin yn rhoi urddas i farwolaeth ac i'r bechgyn a laddwyd yn y rhyfeloedd, rhoi 'cip ar dragwyddoldeb' i'r milwyr, parhau i gadw cof am y milwyr a sicrhau y byddant yn fyw am byth
- cyfosod yw un o brif nodweddion arddull Iwan Llwyd, cyfosod pobl, amser, lleoedd a digwyddiadau
- cyfeiriadau bwriadol at farddoniaeth Aneirin 'y milwyr briwiedig' a'u cyrff yn 'gig amrwd a fwydai frain', delweddau rhyfel, gwrthgyferbyniadau rhwng brwydr Catraeth a brwydrau Kampuchea, Somme a'r Chwe Sir - yr un oedd y lluniau o'r rhyfeloedd ond bod y rhain yn lluniau du a gwyn, defnydd o ferfau, cyfarch y newyddiadurwr, personoli'r tanciau, goferu
- gwelir ei gred mai ffolineb yw'r dyhead i ladd a'r dyhead i farw dros achos mewn ymgais at anfarwoldeb: erchylltra rhyfel yn cael ei amlygu ymhob oes ac nid yw wedi newid dros y canrifoedd

**Sgrifen yn y tywod**

- cerdd o fyfyrdod ar lan llyn Clywedog gan ystyried mai olew oedd wrth wraidd Rhyfel y Gwlff
- beirniadaeth Iwan Llwyd o ysfa America i sicrhau cyflenwad olew ar draul bywydau pobl Irac yn gryf
- tlysni ymddangosiadol ond Chwefror yn chwerw
- disgrifir rhyfel y Gwlff fel y rhyfel lloeren cyntaf, a daeth yn rhyfel byw
- cysyniad Americanaidd 'Duw o'n plaid'
- cân yw hi, gwrthgyferbyniad rhwng oerni Cymru a gwres Irac, cyferbyniad rhwng 'du' a 'gwyn' yn creu naws anghysurus, elfen gref o ddychan, personoli'r oerfel yn 'gafael yn y bysedd grisial sy'n crogi o'r coed', gellir dehongli'r gaeaf hwn fel trosiad am ryfel, delwedd y pennill olaf o fyd ffilmiau, delwedd y cowboi 'there's gold in them hills' sef yr olew
- condemnio rhyfel gan bwysleisio iddynt fynd i ryfel am fod olew yn Irac a'u bod am gadw eu gafael ar yr olew hwnnw

**Cwestiwn (b)**

*Yn y cerddi **'Preseli', 'Yma mae fy lle' a 'Cymwynaswr'** bu Waldo Williams, Gwyn Thomas a Ceri Wyn Jones yn myfyrio mewn lleoedd amrywiol. Cymharwch y cerddi hyn o ran cynnwys ac arddull gan ystyried **arwyddocâd y lleoedd** y cyfeirir atynt.*

Gellir cyfeirio at y canlynol:

Mae'r tri bardd yn **myfyrio mewn lleoedd amrywiol, penodol** – Blaenau Ffestiniog, Preseli a charchar Kilmainham yn Nulyn. Mae'r **lleoedd** hyn yn bwysig i'r tri ac yn **ysbrydoliaeth** iddynt.

**Arwyddocâd y lleoedd:** Waldo Williams yn **adnabod cymdeithas arbennig** y Preseli a gweld yn honno obaith dynoliaeth, Gwyn Thomas yn myfyrio ar **gyfoeth ei brofiadau** ym mro ei febyd sef Blaenau Ffestiniog yn '*Yma mae fy lle'* a Ceri Wyn Jones yn cywilyddio ar ôl ei brofiad personol yn ymweld â charchar Kilmainham yn Nulyn yn y gerdd '*Cymwynaswr'* gan **gwestiynu ei genedlaetholdeb** ac ystyried pa mor fas ac annigonol yw ei deimlad ef tuag at ei wlad.

**Darlun o'r lle:** Er mai darlun o le sy'n **ddigon llwm ei dirwedd** sydd gan Gwyn Thomas yn y gerdd '*Yma mae fy lle*', pwysleisir y modd y mae'r bardd yn uniaethu'n llwyr gydag elfennau sydd o'i gwmpas. Mae'n agor y drws ar y darlun ac ar y neges, sef bod y bardd yn perthyn i'r lle hwn. Mae'r bardd a'r lleoliad yn perthyn i'w gilydd yn annatod. Nid rhywbeth arwynebol mo'r teimlad hwn o berthyn, ond rhywbeth sy'n treiddio i fêr ei esgyrn. Pobl sy'n mynd â bryd Waldo Williams yn y gerdd '*Preseli'* gyda **chariad Waldo at ei fro yn tarddu o'r bobl**. Wrth grwydro carchar Kilmainham yng nghwmni'r tywysydd **daw awyrgylch y lleoliad yn fyw** ac ymdeimla â phoen y gweriniaethwyr gan **ddarlunio delweddau o ryfel**.

**Wrth i'r beirdd fyfyrio, gwelir yn amlwg y dylanwadau sydd arnynt:** Dylanwad bro ei febyd sy'n drwm ar Waldo a chyfeiria at ei fro fel rhan annatod o'i hunaniaeth. **Microcosm o Gymru yw ei fro** a mynega ei gariad ati, ond gwêl fygythiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn tanseilio ei hunaniaeth ac yn bygwth ei gymdeithas ddelfrydol. Ystyried y dylanwadau a fu arno wna Gwyn Thomas, **dylanwadau bro ei febyd arno** a dylanwadau na ellir eu dileu, '*hyd lefelau dyfnaf fy mod*'. Dengys yma fod y **dylanwadau sydd ar berson yn ei ieuenctid** yn parhau drwy gydol bywyd. Ystyried yr ymdeimlad dwfn o **berthyn** a wna Ceri Wyn Jones yn y gerdd '*Cymwynaswr'*. **Hanes a brwydr gwlad** felly sydd wedi dylanwadu ar y bardd yng ngharchar Kilmainham yn Nulyn ynghyd ag agwedd ac ysbryd tanllyd y tywysydd. Sylweddola fod cenedlaetholdeb y Gwyddelod yn llawer mwy tanbaid.
Procio cydwybod y bardd a wna'r tywysydd gan agor ei lygaid i sylweddoli'r ymdrech sydd ei hangen cyn ennill annibyniaeth gwlad.

**Ysbrydoli, clodfori a chanmol:** mae gan Waldo gred sylfaenol yn naioni dyn ac mae'i olwg ar fywyd yn un **llawn gobaith**. Esbonia beth yw ystyr bywyd yn wyneb argyfwng y byd modern a achoswyd yn bennaf gan y ddau ryfel byd. **Gwerthoedd ysbrydol a brawdgarwch** yw unig obaith y ddynoliaeth i fyw bywyd heddychlon ac roedd gan Waldo sicrwydd y byddai hyn yn goroesi unrhyw fygythiad. Gwelir pwysigrwydd Cymru a'r iaith Gymraeg iddo wrth iddo edrych allan ar y byd drwy ffenestr ei iaith a'i ddiwylliant - dyna arwyddocâd y Preseli iddo. Nid ceisio ateb a wna Waldo yn '*Preseli*' ond rhoi'r ateb - cenhadu'n dawel ac yn heddychlon a wna gan ymbil arnom i warchod ei ardal a'i gwerthoedd gwaraidd. Er mai tirwedd lom a ddarlunnir gan Gwyn Thomas, mae'r **pethau elfennol Cymreig hyn** a ddylanwadodd arno **yn parhau drwy gydol bywyd y bardd**. Efallai y bydd rhai yn cyfeirio yn yr un modd bod Ceri Wyn Jones yn **edmygu'r** gweriniaethwyr am frwydro a sicrhau dyfodol gan **glodfori** angerdd a brwdfrydedd y tywysydd ifanc yn byw'r gorffennol yn y presennol '*wrth iddo wau hen drywydd ei storïau'*.

**Byddant yn cyfeirio at:**

**Preseli' Waldo Williams**

- pwysigrwydd bro'r Preseli, yr iaith Gymraeg a Chymru
- ysgrifennu pan oedd y weinyddiaeth rhyfel yn bygwth codi maes ymarfer rhyfel o amgylch ardal Mynachlog Ddu
- adnabod ei ardal yn dda a'r hyn sydd o'i amgylch sydd wedi magu ynddo annibyniaeth barn
- cyfeirio at ei fro enedigol fel 'bro brawdoliaeth' a chariad Waldo at fro yn tarddu o'r bobl
- gwêl ei fro fel rhan annatod o'i hunaniaeth, bygythiad i'w fro yn tanseilio ei hunaniaeth
- brawdgarwch a brawdoliaeth, penillion 2 a 3: thema allweddol
- cymdeithas ddynol ar y Preseli yn wydn ac yn cydweithio, er yn brin yn faterol, syniad o berthyn yma
- gwêl yn y Preseli obaith i ddynoliaeth, dyma enghraifft berffaith sut y dylai pobl fod yn byw ac yn gweithio gyda'i gilydd – microcosm o Gymru yw'r ardal
- darlun delfrydol o fro ei febyd a'r ple wrth gloi
- heddychiaeth yn y clo, rhyfel a'r ffatri arfau yn bygwth yr heddwch hwn
- Waldo yn gwbl argyhoeddedig nad rhyfel yw'r ateb i broblemau'r gymdeithas
- gobaith yn treiddio drwy'r gerdd, y gobaith am y dyfodol yn cael ei drosglwyddo wrth ddefnyddio delweddau byd natur a'r 'ffenestr' a'r 'ffynnon'
- cerdd rydd – amrywio hyd llinellau ond yn defnyddio odl
- ymhyfrydu yn sŵn a sain yr enwau lleol, delwedd o 'dŷ', ailadrodd y ferf 'cadwn': Waldo yn mynnu bod ei gyd-Gymry yn sefyll fel un, 'perl yr anfeidrol awr': mae'r lle fel y trysor gorau posibl iddo

**Yma y mae fy lle**

- perthyn i ardal bro ei febyd sef Blaenau Ffestiniog
- pwysleisir y dylanwadau a fu arno, dylanwadau na ellir eu dileu
- nid disgrifio a phwysleisio harddwch y lle a wna'r bardd ond yn hytrach yr amrywiaeth o ran tirwedd, y mawnogydd a'r corsydd ar y naill law a'r creigiau ar y llaw arall, a dyma gyfoeth ei brofiadau
- cyfeiria at fyd natur a'r diwydiant llechi, y 'gigfran a'r gylfinir' a'r defaid sef y pethau elfennol Cymreig hynny a ddylanwadodd arno
- y dylanwadau hyn a greodd y bardd a dylanwadu ar 'lefelau dyfnaf fy mod'
- disgrifio bro ei febyd yn y presennol a wna'r bardd
- cerdd yn y wers rydd sy'n defnyddio odl yn achlysurol e.e. defnyddia'r odl wrth gloi'r gerdd er mwyn cysylltu'r geiriau pwysig 'yn ddiddarfod' a 'fy mod', defnyddio ailadrodd 'yma y mae fy lle', gwrthgyferbyniadau: 'mawnogydd a'r mannau llaith' ac 'esgeiriau hir y creigiau,' cyffelybiaeth 'fel llygadau'r cynfyd', uchafbwynt yn y llinell olaf

**Cymwynaswr**

- portread o'r tywysydd
- y bardd yn diolch i'r tywysydd yng ngharchar Kilmainham, lle aed â nifer o arweinyddion gwrthryfel Pasg 1916 i'w saethu, am agor ei lygaid i sylweddoli yr ymdrech mae angen ei gwneud cyn ennill annibyniaeth gwlad a'i hysbrydoli
- er mai'r un llith sydd gan y tywysydd sylweddola'r bardd ei fod yn siarad o'i galon a sylwa ar ddeuoliaeth ei gymeriad
- llwydda'r tywysydd i ddod â'r gorffennol yn fyw yn y presennol i'r bardd;
- 3 berf yn y clo yn arafu'r gerdd ac yn pwysleisio arwyddocâd y gymwynas, 'crynais. Oedais. A gwrido'- mae geiriau'r tywysydd yn poeni cydwybod y bardd am nad ydym ni wedi sefyll mor gryf â'r Gwyddelod wrth amddiffyn ein gwlad
- oherwydd i'r tywysydd beri iddo sylweddoli hyn y gelwir y gŵr yn 'gymwynaswr', caiff ei ysgogi felly gan berson y tu hwnt i Gymru
- defnydd o gynghanedd mewn cywydd byr, mor hawdd mae'n cynganeddu mewn cwpledi fel: 'tu ôl i'r sbectol coleg
  yr oedd ei lygaid yn rheg.'
- defnydd o eiriau rhyfel sy'n ein hatgoffa am y brwydro ym 1916 megis 'o glwyfau gwlad' ac 'yr adrodd yn ffrwydrad', llygaid y tywysydd 'yn rheg' wrth i'r anghyfiawnder ei gnoi, defnydd o eiriau i greu awyrgylch y lleoliad - 'yr oedd pob estyllen frau yn hanesydd hen eisiau', gwrthgyferbyniad mewn cwpledi.

*Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol nas nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.*

**Cynllun Marcio Cwestiwn 2 – Barddoniaeth 30 am yr ymateb ysgrifenedig a 10 am safon yr iaith a'r arddull : 40 x 2 = 80 marc.**

| Gradd | AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|---|
| A | • arddangos gwybodaeth drylwyr ac eang am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• cymharu a chroesgyfeirio effeithiol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at gerddi penodol a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull yn effeithiol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn effeithiol | 24-30 | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw, mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen | 8-10 |
| B | • arddangos gwybodaeth fanwl am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• cymharu a chroesgyfeirio synhwyrol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth eithaf da o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n synhwyrol ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol yn aml<br>• dadansoddi arddull yn foddhaol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn gyson | 20-23 | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir a chroyw mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C | • arddangos gwybodaeth am y cerddi gyda manylder ar adegau<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• cymharu a chroesgyfeirio rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'r testun yn foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn eithaf cyson | 15-19 | • mynegi syniadau a dadleuon yn glir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn lled ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 5-6 |
| D | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y cerddi<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol<br>• cymharu a chroesgyfeirio ychydig rhwng gweithiau'r beirdd<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y cerddi<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau addas yn achlysurol<br>• trafod rhai agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi barddoniaeth | 11-14 | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 4 |
| E | • arddangos gwybodaeth fras am y cerddi<br>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• ceisio cymharu gwaith beirdd â'i gilydd<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• dangos y tueddiad i ailadrodd cynnwys<br>• arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau personol, arwynebol<br>• defnyddio ambell i gyfeiriad penodol at gerddi a dyfynnu'n achlysurol iawn<br>• ceisio trafod ambell agwedd ar arddull<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi barddoniaeth | 6-10 | • mynegi syniadau uniongyrchol a syml yn lled glir<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 2-3 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. | 0-5 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. | 0-1 |

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF**

**CYNLLUN MARCIO CY5**

**Haf 2014**

## Adran A

**1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol**

(a) Troswch i Gymraeg llenyddol diweddar **linellau 1- 16 :** 'nyt oes neb yma a wypo ... yssyd ar yr auon'. **[20]**

Rhoddir 2 farc am bob rhan.

1. 'Nid oes neb/Does neb yn gwybod / Does neb sy'n gwybod yma a ŵyr ddim / unrhyw beth am hynny onid yw/os nad yw/heblaw bod Branwen yn gwybod. Gofynnwch iddi.'
2. Aeth negeswyr at F/Branwen.
   'Arglwyddes,' ebe/meddent hwy/medden nhw, 'beth (a) dybi di / gredi di / feddyli di yw hynny?'
3. 'Er nad wyf yn arglwyddes,' ebe/meddai hi, 'fe wn i beth yw hynny. Gwŷr Ynys y Cedyrn yn dod drosodd wedi clywed am fy nghosb a'm hamarch.'
4. 'Beth yw'r coed a welwyd ar y môr?' ebe/meddent hwy.
   'Gwernenni/Mastiau a hwylbrenni/hwylbrennau llongau,' ebe/meddai hi.
5. 'Och / O!' ebe/meddent hwy, 'beth oedd y mynydd (a) welwyd wrth ochr/ar bwys y llongau?'
6. 'Bendigeidfran fy mrawd oedd hwnnw,' ebe/meddai hi, 'yn dod gan / dan gerdded/i ddŵr bas. Nid oedd/fyddai llong/long y cynhwysid ef/gellid ei gynnwys ef ynddi.'
7. 'Beth oedd y gefnen/y grib uchel iawn a'r llyn (o/ar) bob ochr i'r gefnen / i'r grib?'
   'Ef,' ebe/meddai hi, 'yn edrych ar yr ynys hon; y mae'n llidiog/ddig/wedi gwylltio/yn flin/yn grac.
8. Ei ddau lygad ef/ei lygaid ef o bob ochr i'w drwyn yw'r ddau lyn (o/ar) bob ochr i'r gefnen.'
9. Ac yna galwyd ynghyd holl wŷr ymladd/milwyr/rhyfelwyr Iwerddon a'r holl benrhynnau/swyddogion/cadfridogion yn gyflym, a chymerwyd cyngor.
   'Arglwydd,' ebe/meddai ei wyrda/uchelwyr wrth Fatholwch,
10. 'nid oes cyngor / gyngor ond cilio dros Linon/Llinon (afon (a) oedd yn Iwerddon) a gadael Llinon rhyngot ag ef, a thorri'r bont sydd ar yr afon.

Hyd at 2 wall – tynnu ½ marc
Hyd at 4 gwall – tynnu 1 marc
5 gwall neu fwy – tynnu 1 ½ marc
Os yw'r trosi yn ystyrlon – gellir gwobrwyo ½ marc
Os collir ystyr i gyd - 0 marc.



© WJEC CBAC Cyf.

Dyfernir 20 marc am yr ateb ac asesir AA2 ac AA3.
10 marc ymateb i destun + 10 marc iaith = 20 marc

| Gradd | AA2 – Ymateb i destun | AA2 Ystod marciau (10) | AA3 – Defnydd iaith ysgrifenedig | AA3 Ystod marciau (10) |
|---|---|---|---|---|
| A | • Arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun<br>• Llwyddo i ddiweddaru'r eirfa a'r gystrawen lle bo angen | 8-10 | • Rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• Arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• Meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | 8-10 |
| B | • Arddangos gwybodaeth fanwl am y testun<br>• Llwyddo i ddiweddaru'r eirfa a llawer o'r cystrawennau | 6-7 | • Rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• Arddangos adnoddau iaith da<br>• Arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | 6-7 |
| C | • Arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau<br>• Llwyddo i ddiweddaru lle bo angen yr eirfa a rhai cystrawennau, er bod peth ansicrwydd i'w ganfod | 5 | • Rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• Gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 5 |
| D | • Arddangos peth gwybodaeth am y testun<br>• Llwyddo i ddiweddaru'r eirfa a'r ymadroddion | 3-4 | • Dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• Arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• Arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 3-4 |
| E | • Arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun<br>• Llwyddo i ddiweddaru'r eirfa | 2 | • Dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• Arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 2 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol gradd E ar adegau yn unig. | 0-1 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol gradd E ar adegau yn unig. | 0-1 |



© WJEC CBAC Cyf.

(b) Manylwch ar **y themâu** a geir yn y **darn cyfan** **[20 marc]**

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu esbonio themâu megis:

- **Dial** Matholwch ar wŷr Ynys y Cedyrn oherwydd y **sarhad** a ddioddefodd trwy **lid Efnisien** yng Nghymru yn arwain at thema'r **diniwed yn dioddef** Branwen yn colli ei statws fel tywysoges.
- **Sarhad -** Branwen yn cael ei cham-drin yn y gegin a'i gorfodi i ddioddef "poen ac amharch" o dan law waedlyd y cigydd. (Gallant grybwyll elfennau'n cydbwyso'n y chwedl rhwng gwaed y meirch a ddifethwyd gan **genfigen** Efnisien yn Aberffraw a'r bonclust waedlyd a ddioddefodd Branwen yn y gegin).
- **Balchder** Matholwch a **gwendid ei gymeriad** fel arweinydd yn ildio'n ddigwestiwn i rwgnach ei ddeiliaid ac **ymateb urddasol** Branwen i'w dioddefaint.
- **Teulu yn achub cam** - Bendigeidfran yn **arweinydd doeth** yn dod i achub Branwen o'i loes ar ôl iddo dderbyn neges y llatai, sef y ddrudwen, a gludodd epistol poen Branwen o Iwerddon i Gaersaint yn Arfon. Gwaed yn dewach na dŵr.
- **Gorddisgrifio Bendigeidfran yn croesi i Iwerddon** – elfen oruwchnaturiol cymeriad cadarn Bendigeidfran yn cyferbynnu gydag agwedd ddiasgwrn cefn Matholwch. **Dyrchafu gwŷr Ynys y Cedyrn i dir moesol uwch na'r Gwyddelod.**
- Diriaethu'r ofnau a deimlai'r Gwyddelod wrth iddynt ddychmygu fod tir Ynys y Cedyrn yn cau arnynt yn llythrennol o gyfeiriad y môr. Branwen yn dawel hyderus yn sicrwydd ei dehongliad hi ei hun o'r gweledigaethau anesboniadwy a welodd y meichiaid na allodd Matholwch na'i swyddogion eu dehongli. **Urddas Branwen**.
- **'**A fo ben bid bont' yn ddihareb/wireb sy'n delweddu **Bendigeidfran yn arweinydd doeth** a chadarn sy'n cynnig arweiniad arwrol trwy weithred ddewr ac anhunanol er mwyn ceisio achub ei deulu a'i bobl. **Elfen** onomastig – digwyddiad yn y chwedl yn esbonio tarddiad ymadrodd sy'n ddihareb.
- Matholwch yn **frenin gwan a rhagrithiol** yn anfon ei weision at Franwen i gael esboniad o'r **elfennau goruwchnaturiol** yn dod tua thir Iwerddon.
- Matholwch y llwfrgi'n torri'r bont dros Linon yn hytrach na wynebu dicter gwŷr Ynys y Cedryn.
- **Rhyfel rhwng dau deulu a dwy wlad – methu â chymodi.**
- **Safle israddol y ferch** yn chwedlau'r Oesoedd Canol. Branwen yn ymgorfforiad o'r ffigwr benywaidd diymadferth sy'n gaeth i fyd a reolir gan ddynion a'u balchderau dinistriol.

Ni ddisgwylir i'r ymgeiswyr drafod yr holl themâu uchod ond yn hytrach disgwylir iddynt ddewis rhai o blith yr uchod gan drafod y rheini gyda dyfnder a threiddgarwch.



© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| A<br>16-20 | • Manylu ar y themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd<br>• Crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• Arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| B<br>12-15 | • Manylu ar y themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd<br>• Crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• Arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| C<br>10-11 | • Manylu ar y themâu, eu cyflwyno'n briodol a dangos eu bod wedi eu deall<br>• Crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• Arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas |
| D<br>6-9 | • Trafod y themâu, gan ddangos eu bod wedi eu deall<br>• Crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• Arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• Defnyddio dyfyniadau |
| E<br>4-5 | • Trafod o leiaf 1 thema gan ddangos eu bod wedi ei deall<br>• Arddangos gwybodaeth am gynnwys y testun a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• Ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• Datblygu ac ehangu ar rai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau<br>• Dyfynnu'n achlysurol |
| U<br>0-3 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. |



© WJEC CBAC Cyf.

**2. Yr Hengerdd a'r Cywyddau**

Dyfernir y marciau fel a ganlyn:

(a) cefndir y bardd a'r gerdd = 15 marc
(b) arddull y dyfyniad = 15 marc

Defnyddio iaith ysgrifenedig 10 marc
Asesir AA2 ac AA3 yn y cwestiwn hwn.

Cyfanswm = 40 marc

(a) Dylent drafod **cefndir Dafydd ap Gwilym a chefndir 'Trafferth Mewn Tafarn'**.

Dylent sôn am y cefndir trwy berthnasu eu dadansoddiad i'r dyfyniad a chwilio am dystiolaeth o'r dyfyniad i gadarnhau a chyfoethogi eu hatebion. Dylent allu cyfeirio at rai o'r nodweddion hyn:

**Dafydd ap Gwilym**

- Barddoni rhwng c.1340 a 1370
- Tybir iddo gael ei eni ym Mrogynin ym mhlwyf Llanbadarn Fawr ger Aberystwyth a'i gladdu'n Ystrad-Fflur
- Dylanwad ei ewythr Llywelyn ap Gwilym ab Einion, Cwnstabl Castell Newydd Emlyn yn ei gyflwyno i Saeson a dylanwadau diwylliant o Ffrainc a'i athro mewn cerdd dafod
- Un o feirdd yr Uchelwyr neu'r Cywyddwyr
- Ifor Hael oedd ei brif noddwr
- Teithiodd ar hyd a lled Cymru
- Arloeswr mesur y cywydd – ehangodd orwelion Cerdd Dafod
- Llwyddodd i gymhathu hen draddodiad barddol Cymraeg y Gogynfeirdd ag elfennau o ganu cyfandirol ei gyfnod
- Golygwyd 171 cerdd o'i eiddo ar dafyddapgwilym.net
- Ceir rhai o'i gerddi yn llawysgrif Peniarth 49

**Y Cywydd**

- Cywydd tro trwstan yn darlunio rhwystrau ar lwybr serch – dylanwad *fabliaux* a'r *alba*
- Byddai rhai yn awgrymu mai cyfeirio at dafarn yn ardal Bangor neu Rosyr ger Niwbwrch, Ynys Môn sydd yma
- Cywydd yn darlunio canlyniadau porthi balchder, sef un o'r saith pechod marwol, yn amlwg yn y cywydd
- Cywydd yn parodïo'r foeswers ganoloesol
- Cywydd am obeithion, siomedigaethau, dyheadau a methiant y carwr aflwyddiannus
- Gwneud sbort am ei ben ei hun
- Cywydd llawn hiwmor a doniolwch cartwnaidd
- Agweddau Cymry at Saeson a Saeson at Gymry'r cyfnod yn amlwg yn y cywydd - hyn yn darlunio hunanhyder Dafydd



© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| .A<br>12-15 | • Crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y gerdd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• Arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| B<br>10-11 | • Crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• Arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| C<br>8-9 | • Crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• Arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas |
| D<br>5-7 | • Crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd a'u cyflwyno'n gywir<br>• Arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• Defnyddio dyfyniadau |
| E<br>3-4 | • Arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• Ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• Datblygu ac ehangu ar rai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau<br>• Dyfynnu'n achlysurol |
| U<br>0-2 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. |



© WJEC CBAC Cyf.

**(b) Arddull**

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu cyfeirio at rai o'r nodweddion arddull hyn a manylu ar eu heffeithiolrwydd:

- Adrodd yr hanes yn y person cyntaf – natur lafar y farddoniaeth. Newid yn yr arddull wrth ddechrau disgrifio'r daith
- Rhestru'r digwyddiadau alaethus a ddaeth i'w ran
- Defnyddio berfau yn y Person Cyntaf er mwyn cyflwyno'r digwyddiadau trwstan hyn – cefais…trewais…ni neidiais
- Defnyddio berfenwau yn cyfleu'r cyffro ac yn cyflymu'r hanes – syrthio, rhoi, gweiddi
- Gan mai disgrifio mae'r bardd, mae'r ystyr yn llifo dros nifer o gwpledi a'r sangiadau yn torri ar draws llif y brawddegau.
- Yn nisgrifiad y llanast, mae'r arddull sangiadol yn rhoi argraff o iaith a chystrawen wedi ymollwng - llanast o gystrawen yn cyfleu llanast y digwyddiad
- Cwpled epigramatig – y bardd gyda'i dafod yn ei foch – 'Haws codi, (drygioni drud), Yn drwsgl nog yn dra esgud'.
- Negyddol "nid oedd gampau da" yn pwysleisio ei ddiffygion a'i rwystredigaeth
- Enghraifft o leihad – 'ni neidiais yn iach' – mae'r ddau sylw yn goeglyd a digrif
- Ebychiad – Cymry a'm câr
- Mynegi cymen diarhebol – Drwg fydd tra awydd; a sylw moesol anghydnaws – Gŵr gorwag oeddwn
- Personoli'r dodrefn – Rhoi diasbad o'r badell
- Cyfleu'r sŵn trwy ddewis ansoddeiriau annisgwyl - 'ystôl groch ffôl' a 'llafar badell efydd' a geiriau megis diasbad, gweiddi, cyfarth
- Cyfansoddair "drewsawr" i ddisgrifio gwely'r "trisais" yn peri chwerthin wrth iddynt gael eu clymu yng nghlec y gynghanedd
- Brawddeg wirebol gyda chyferbyniad trawiadol rhwng arafwch a chyflymder: 'yn drwsgl nog yn dra esgud.'
- Deialog ddramatig yn cymeriadu Hicin a Siencin a Siac
- Dadansoddi effaith ambell gynghanedd e.e. Cynghanedd Sain yn clymu berfau gorchmynnol "mogelwch" a "cedwch" at ei gilydd i ddarlunio'r agwedd amheus at y Cymry - yr ystrydeb eu bod yn lladron.



© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| A<br>12-15 | • Dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| B<br>10-11 | • Dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| C<br>8-9 | • Dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas |
| D<br>5-7 | • Trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• Defnyddio dyfyniadau |
| E<br>3-4 | • Trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi<br>• Datblygu ac ehangu ar rai syniadau<br>• Dyfynnu'n achlysurol |
| U<br>0-2 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. |



© WJEC CBAC Cyf.

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol. **(10)**

| Gradd | AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig |
|---|---|
| A<br>8-10 | • Mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir ac yn groyw<br>• Saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• Arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• Meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen |
| B<br>6-7 | • Mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir ac yn groyw<br>• Saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• Arddangos adnoddau iaith da<br>• Arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen |
| C<br>5 | • Mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• Cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• Gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| D<br>3-4 | • Defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• Dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith<br>• Arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• Arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen |
| E<br>2 | • Defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol<br>• Dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• Arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen |
| U<br>0-1 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. |

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**



© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF**

**CYNLLUN MARCIO CY6**

**Haf 2014**

**Adran A – Gwerthfawrogi Rhyddiaith - 60marc**

- Gwyn mewn sêl anifeiliaid gyda'r bwriad o ganfasio dros Ddatganoli.

- Dechrau chwilio am wynebau cyfarwydd a gweld Armon Morris yn pwyso dros giât un o'r corlannau. Tenant Cyrn y Bwch, un o ffermydd stad Brogyntyn yn ymuno â'r ddau ac yn dechrau corddi'r dyfroedd a gofyn am daflen.

- Portread cynnil o'r tenant; ei osgo a'i ystum awgrymog yn cyfleu ei gymeriad. Defnyddio **ansoddeiriau** '*tywyll', 'sbeitlyd'* i ddisgrifio'i lygaid.

- Tyndra rhwng y ddau yn arwain at wrthdaro ffyrnig. Caiff Gwyn ei fygwth a'i gyhuddo o fod yn '*Welsh Nash*'. Nifer o **ddelweddau cynnil a berfau** yn rhoi cyfle i ddisgrifio gwedd ac osgo'r tenant yn fanwl, defnyddio gwahanol **ferfau, cyferbynnu** effeithiol, e.e. '*ei lygaid fel soseri ... Culhaodd y llygaid, ac ystumiwyd y rhychau cras yn rhychau casineb.*' **Ieithwedd** y ddau yn gwneud defnydd cwbl realisitig o regfeydd, e.e. '*diawl*', gair Saesneg '*devolution*'.

- Gwyn yn dysgu ei wers ac Armon Morris yn awgrymu wrtho i adael y sêl; tybiai nad oedd llawer o gefnogwyr Datganoli yn bresennol y diwrnod hwnnw. **Cynildeb** o ran y dweud.

- Gwyn yn dychwelyd ddiwedd y prynhawn i nôl ei enillion cyn gyrru adre. Ei gyfaill Armon Morris wedi gwneud yn siŵr ei fod wedi cael pris da am ei ŵyn.

- Ei ewythr Richard Lloyd yn ei gyfarch, yn holi am ei helyntion ond yn ddigon craff i synhwyro'i anniddigrwydd.

- Yr haul yn machlud a'r cysgodion yn ymledu. **Cynildeb awgrymog** o ran y dweud yn cyfleu anobaith Gwyn ynglŷn â'r sefyllfa wleidyddol, e.e.' … *fe ddechreuodd y cysgodion ymledu, a chynyddu. Sylwodd Richard Lloyd fel yr oedden nhw'n araf ddwysáu. Gwyliodd eu tywyllwch yn dringo mynwes Gwyn at, ac am ei wddf a thros ei wyneb, ac i'w lygaid. A theimlodd drosto.'*

- Richard Lloyd yn **athronyddu'n drosiadol** yng nghwmni Gwyn gan **ddelweddu'n effeithiol** drwy gyfeirio at gadernid y mynyddoedd a grym Natur sy'n anferthol fwy na dyn. **Cwestiwn arwyddocaol,** e.e. *'Faint o ddydd a nos wyt ti'n meddwl mae'r rheina wedi'u gweld?''*



© WJEC CBAC Cyf.

- **Sgwrs fer** Richard Lloyd a Gwyn yn cyfleu perthynas a dealltwriaeth. **Cwestiwn olaf** Richard Lloyd yn cyfeirio at ein goroesiad ni fel cenedl.

- Owain ym marics Henffordd yn wynebu diwedd ei yrfa yn y fyddin. Awgrym cynnil fod rhywbeth o'i le.

- Penderfynu gwneud rhywbeth, gadael y gwersyll a rhedeg dros y Bannau. **Brawddegu crefftus yn cyflymu'r tempo** wrth iddo redeg gan ryddhau ei hun o'i rwystredigaeth.

- **Golygfa ddarluniadol gynnil:** cyrraedd nant a chael saib i feddwl. Edrych ar natur o'i gwmpas a dechrau **athronyddu** am wacter mawr y bydysawd a dinodedd dyn. Adlewyrchir ei gyflwr meddwl a cheir datganiad arwyddocaol: *'Ynghanol hynny i gyd roedd y byd yn fach, yn llai na brycheuyn lleiaf o lwch. Ac roedd dyn yn ddim. Ond nid y math o ddim yr oedd y dyn cyffredin, y dyn bach yn y bydysawd dynol'.*

- Owain yn gweld aderyn bach streipiog du a gwyn yn glanio wrth ei ymyl. Teimlo hiraeth gan nad oedd wedi gweld aderyn cyffelyb ers gadael Blaencwm.
  Uniaethu â rhyddid yr aderyn gan wybod na fyddai'n ddiwedd y byd dychwelyd i Gwm Llawenog ond yn cyfleu'n glir mai'r fyddin oedd ei gartref er ei fod wedi'i ddiarddel. Cloi drwy gyfeirio at ei '*ddiarddel*'.

- Ceir cipolwg ar amgylchiadau dau frawd o Gwm Llawenog yn y **trydydd person.** Ceir **gwrthdaro** ar sawl lefel – gwrthdaro corfforol, gwrthdaro mewnol yn ogystal â'r rhwystrau sydd yn wynebu'r ddau; rhwystrau Owain o gael ei ddiarddel o'r fyddin a rhwystrau a oedd yn wynebu Gwyn fel Cymro.

**Synoptig**

Gellir cydio mewn nifer o themâu megis:

- **Cenedlaetholdeb Cymreig / Gwleidyddiaeth**
- **Byddin**
- **Natur ddynol**
- **Llwybrau bywyd gwahanol dau frawd**
- **Yr hyn yw Dyn**
- **Gwrthdaro**



© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA2 | AA2 - ystod y marciau (40) | AA3 | AA3 - ystod y marciau (20) |
|---|---|---|---|---|
| A | • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dreiddgar<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at rannau penodol o'r testun a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn dreiddgar<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn ddeallus<br>• croesgyfeirio'n ddeallus rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | 32-40<br><br>*(Synoptig 8-10)* | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | 16-20 |
| B | • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn addas a phwrpasol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn effeithiol<br>• croesgyfeirio effeithiol rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | 26-31<br><br>*(Synoptig-7)* | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | 13-15 |
| C | • crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau addas<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn foddhaol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn gyson<br>• croesgyfeirio'n synhwyrol rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a rhai technegau arddull | 20-25<br><br>*(Synoptig 5-6)* | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 10-12 |



© WJEC CBAC Cyf.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D | • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n lled foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun a defnyddio rhai dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• ychydig o groesgyfeirio rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu ac ambell dechneg arddull | 14-19<br><br>*(Synoptig - 4)* | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 7-9 |
| E | • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol<br>• datblygu ac ehangu ar rai syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun ac ambell ddyfyniad<br>• trafod rhai agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• creu ambell gymhariaeth rhwng gwahanol destunau | 8-13<br><br>*(Synoptig 2-3)* | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac yn effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 4-6 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. | 0-7<br>*(Synoptig – 1)* | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. | 0-3 |

***Wrth ddyfarnu marciau i AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau/tri phwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf. Rhaid i'r marc iaith fod o fewn un radd i'r marc cynnwys.**

**Rhoddir canllaw ar gyfer dyfarnu marciau am yr elfen synoptig o fewn amcan asesu - Ymateb i destun (AA2) mewn print italig yn y golofn farciau.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 2 – Defnyddio'r Iaith - 50 marc**

**Llunio darn o ryddiaith personol a dychmygus ar bwnc arbennig.**

Gan mai o dan adran defnyddio'r iaith y daw'r cwestiwn hwn, dylid rhoi lle blaenllaw i ansawdd, mynegiant ac arddull wrth asesu.

| Gradd | AA3 - ysgrifennu | AA3 - ystod marciau |
|---|---|---|
| A | • cyflwyno gwaith llawn dychymyg a gwreiddioldeb<br>• dewis a dethol yn feistrolgar yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiad<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | 40-50 |
| B | • cyflwyno gwaith llawn dychymyg a pheth gwreiddioldeb<br>• dangos ôl dewis a dethol yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiad<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | 32-39 |
| C | • cyflwyno gwaith dychmygus a diddorol<br>• llwyddo i ddewis a dethol y perthnasol yn eithaf da<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 25-31 |
| D | • creu darluniau personol diddorol a digwyddiadau cyffrous<br>• llwyddo i ddewis a dethol y perthnasol ar y cyfan<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 17-24 |
| E | • creu disgrifiadau personol ac ambell ddigwyddiad diddorol<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 10-16 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. | 0-9 |



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 3 – Tasg cyfieithu – 50 marc**

**Rhai nodiadau ar y cyfieithu**

Rhennir y darn yn ddeg adran hylaw a dosberthir 4 marc i bob adran.
Tynnir ½ marc am bob gwall hyd at 5 gwall.
6 gwall neu fwy – rhaid penderfynu ar ansawdd y frawddeg i benderfynu a ddyfernir 1 marc / ½ marc neu 0.

Ar ôl marcio drwy ddilyn y cynllun hwn bydd gennych gyfanswm allan o 40 marc.

Dylech gyfeirio wedyn yn ôl at y disgrifiadau gradd er mwyn rhoi marc argraff allan o 10 marc.

Dylech sicrhau bod y marc argraff yn adlewyrchu gofynion graddau penodol. Mae hyn yn gyfle i wobrwyo defnyddio ymadroddion Cymraeg a chyfoethog yn feistrolgar, naturioldeb o ran llif y mynegiant a chyfieithu isgymalau yn effeithiol.

Cosbir cyfieithu priod-ddulliau a chystrawennau Saesneg. Bydd angen i ffurfiau'r brawddegau fod yn gwbl Gymraeg. Derbynnir ffurfiau cryno a chwmpasog berfau – y cwmpasog yn dderbyniol ar lafar.

**Cyfanswm allan o 40 marc + marc argraff allan o 10 = cyfanswm am y cwestiwn.**

| **AA3 allan o 40** | **allan o 10** |
|---|---|
| **32-40** | **9-10** |
| **26-31** | **7-8** |
| **20-25** | **5-6** |
| **14-19** | **3-4** |
| **8-13** | **1-2** |
| **0-7** | **0** |



© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA3 - ysgrifennu | AA3 - ystod marciau |
|---|---|---|
| A | • cyfieithu'n feistrolgar ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn feistrolgar<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen | 40-50 |
| B | • cyfieithu'n briodol ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn briodol<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 32-39 |
| C | • cyfieithu'n effeithiol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn effeithiol ar y cyfan<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 25-31 |
| D | • cyfieithu'n foddhaol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol ar y cyfan<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 17-24 |
| E | • cyfieithu'n foddhaol rannau o ddarn ffeithiol yn lled gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol mewn rhannau ohono<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 10-16 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. | 0-9 |



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

Ⓗ WJEC CBAC Cyf.